Polisi Capio Ffioedd

MEHEFIN 2020

Datganiad Rheoli'r Fersiwn

Dyma bolisi sy'n ymwneud â gosod cap ar y ffioedd mae cyrff dyfarnu cydnabyddedig yn eu codi mewn cysylltiad â dyfarnu cymhwyster Cymeradwy neu Ddynodedig, ac unrhyw wasanaeth neu gyfleuster arall mewn cysylltiad â'r cymhwyster hwnnw.

Dyma Fersiwn 2 o'r polisi a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020, a sydd yn disodli Fersiwn 1 a gyhoeddwyd yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2016. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiwygiedig hon ar ôl i adolygiad o'r polisi gael ei gynnal yn ystod 2018-19. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltu â chyrff dyfarnu ar y polisi hwn.

Yn ogystal â'n gweithgarwch adolygu polisïau arferol, dylanwadwyd ar y gwaith hwn gan ein hymchwil i'r ffioedd a godir gan gyrff dyfarnu yn ogystal â'n hadolygiad i'r wybodaeth ynghylch ffioedd sydd ar gael i brynwyr.

Rydym ni'n adolygu ein Dogfennau Rheoleiddiol ac yn croesawu adborth unrhyw bryd. Mae croeso i chi anfon unrhyw sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yma.

Cynnwys

Cyflwyniad 4

Egwyddorion cyffredinol 4

Cwmpas y Polisi hwn 5

Meini prawf sy'n debygol o gael eu defnyddio er mwyn penderfynu a yw'n addas gosod Amod Capio Ffioedd ai peidio 5

Monitro ac Adolygu Ffioedd 6

Cynnal ymchwiliad 6

Materion sy'n debygol o gael eu hystyried wrth benderfynu ar y ffin a nodir mewn Amod Capio Ffioedd 7

Cyfnod para tebygol Amod Capio Ffioedd 7

Monitro ac adolygu Amod Capio Ffioedd yn barhaus 8

Y broses o osod Amod Capio Ffioedd 8

Adolygiad o Benderfyniad 9

Cyflwyniad

1. Paratowyd y polisi hwn yn unol ag Adran 47 ac Atodlen 3, Adrannau 6-11 Deddf Cymwysterau Cymru 2015 ac fe'i bwriadwyd ar gyfer y cyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym ni a holl ddefnyddwyr cymwysterau yng Nghymru. Yn unôl â Deddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf"), mae'r pŵer gennym ni i osod cap ar yr ffioedd mae cyrff dyfarnu cydnabyddedig yn eu codi mewn cysylltiad â chymwysterau Cymeradwy neu Ddynodedig y caiff eu cyllido'n gyhoeddus.

2. Mae'r polisi'n amlinellu'r dull rydym ni'n ceisio ei ddefnyddio wrth osod Amod Capio Ffioedd ar gorff dyfarnu am gymwysterau o'r fath. Mae'r polisi hwn yn cynnwys y meini prawf sy'n debygol o gael eu cymhwyso wrth benderfynu gosod Amod Capio Ffioedd ai peidio a'r materion sy'n debygol o gael eu hystyried gennym ni wrth benderfynu ar derfyn y cap. Mae'r ddogfen hon hefyd yn amlinellu'r broses o osod Amod Capio Ffioedd a'i adolygu.

Egwyddorion cyffredinol

3. Yn unol â phrif nodau Cymwysterau Cymru fel y nodir yn y Ddeddf, rhaid inni weithredu mewn ffordd yr ydym yn ei hystyried yn briodol at y diben o sicrhau bod cymwysterau'n effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni roi sylw dyladwy i a yw cymwysterau'n cael eu darparu'n effeithlon er mwyn sicrhau gwerth am arian. Rydym ni'n rheoleiddio'r cymwysterau sy'n gymwys i dderbyn cyllid cyhoeddus a rhan o'n cylch gwaith fel rheoleiddiwr yw sicrhau gwerth am arian.

4. Mae gofyn i gyrff dyfarnu gydymffurfio â'n Hamodau Cydnabod. Mae ein Hamodau'n cynnwys gofynion sy'n ymwneud â gwerth am arian, sef:

   - datblygu, darparu a dyfarnu cymwysterau mewn ffordd effeithiol ac effeithlon;
   - darparu gwybodaeth am ffioedd sy'n hygyrch, yn gyfredol ac yn dryloyw i brynwyr, ac
   - ein hysbysu ni os ydyn nhw'n rhagweld unrhyw amgylchiadau a allai arwain at gynydd yn y ffioedd.[1]

5. Wrth ofyn i gyrff dyfarnu gyhoeddi gwybodaeth am ffioedd, rydym ni'n sicrhau bod yr wybodaeth hon yn hygyrch ac ar gael i bobl sy'n prynu cymwysterau. Pan fo marchnad yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon, disgwylir y bydd prynwyr yn gwneud penderfyniadau doeth, rhesymol yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael iddyn nhw. Fodd bynnag, rydym ni'n cydnabod mai dim ond un ffactor ymhlith nifer yw pris wrth brynu cymwysterau. Mewn amgylchiadau lle nad oes dewis gan brynwyr neu pan nad ydyn nhw'n gwneud dewisiadau gweithredol, fel rheoleiddiwr y system gymwysterau, mae rhan gennym ni i'w chwarae wrth ddiogelu dysgwyr a sicrhau gwerth am arian yn y system gymwysterau.

[1] Amodau Cydnabod Safonol A5, F1 a B3.

6. Rydym ni'n disgwyl:

- bod ffioedd yn cynrychioli gwerth am arian;
- nad yw ffioedd yn atal gallu prynwyr i wneud dewisiadau effeithiol sydd o fudd i ddysgwyr;
- y dylai gwybodaeth berthnasol am ffioedd fod yn gywir, yn gyfredol ac yn eglur i ddarpar brynwr, er mwyn ei alluogi i wneud penderfyniadau effeithiol ynglŷn â phrynu;
- y dylai ffioedd fod yn gyfatebol i, neu'n gymesur â, y costau rhesymol a ysgwyddwyd gan y cyrff dyfarnu wrth ddarparu'r cynnyrch neu'r gwasanaethau perthnasol; ac
- y dylai cyrff dyfarnu ddatblygu, darparu a dyfarnu cymwysterau'n effeithlon ac yn effeithiol, fel bod unrhyw gostau a adlewyrchir mewn ffioedd yn rhesymol.

Cwmpas y Polisi hwn

7. Mae Amod Capio Ffioedd yn amod cydnabod arbennig y gall Cymwysterau Cymru ei osod ar gorff dyfarnu mae'n ei gydnabod. Mae'n rhaid i unrhyw gorff dyfarnu sy'n derbyn amod cydnabod arbennig gydymffurfio â'r Amod hwn er mwyn parhau i gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru i ddyfarnu cymwysterau wedi eu rheoleiddio i ddysgwyr yng Nghymru.

8. Mae Amod Capio Ffioedd yn gosod terfyn ar y ffi y gall corff dyfarnu ei chodi mewn cysylltiad â dyfarnu cymhwyster Cymeradwy neu Ddynodedig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd y byddai corff dyfarnu yn eu codi mewn perthynas â'r cymwysterau hynny.

9. Gallwn osod Amod Capio Ffioedd mewn perthynas â chymwysterau Cymeradwy a Dynodedig yn unig, a pan fo'r cwrs addysg neu hyfforddiant sy'n arwain at y cymhwyster, ac y mae'r person o dan sylw yn ymgymryd ag ef, yn cael ei gyllido'n gyhoeddus[2].

10. At ddibenion y polisi hwn, mae ffioedd yn ymwneud ag unrhyw, a phob swm a godir gan gorff dyfarnu mewn cysylltiad â chymwysterau Cymeradwy neu Ddynodedig.

Meini prawf sy'n debygol o gael eu defnyddio er mwyn penderfynu a yw'n addas gosod Amod Capio Ffioedd ai peidio

11. Byddwn ni'n ystyried gosod Amod Capio Ffioedd os nad ydym ni'n credu bod ffi'n cynrychioli gwerth am arian. At ddibenion y polisi hwn, caiff gwerth am arian ei greu o bedair rhan sef: Effeithlonrwydd, Darbodaeth, Effeithiolrwydd, a Thegwch[3]. Dyma sut y disgrifir y rhain:

[2] Am ragor o wybodaeth ar gymwysterau Cymeradwy a Dynodedig, edrychwch ar ein Dull a Fframwaith Rheoleiddio

[3] https://www.nao.org.uk/successful-commissioning/general-principles/value-for-money/assessing-value-for-money/

- **Effeithlonrwydd** yw'r berthynas rhwng allbynnau a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu;
- **Economi** yw lleihau costau'r adnoddau a ddefnyddiwyd, heb ddiystyrru ansawdd;
- **Effeithiolrwydd** yw'r graddau caiff amcanion eu cyflawni a'r berthynas rhwng effeithiau gwirioneddol a bwriadedig unrhyw wasanaeth neu gyfleuster; a
- **Tegwch** yw'r graddau mae cymwysterau, ac unrhyw wasanaeth neu gyfleuster arall mewn cysylltiad â'r cymhwyster hwnnw, ar gael ac yn cyrraedd y bobl y bwriadwyd nhw ar eu cyfer.

Monitro ac Adolygu Ffioedd

12. Byddwn ni'n cadw llygad ar ffioedd. Byddwn ni'n adolygu ffioedd drwy amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys:

    - adolygiadau thematig;
    - adolygiadau sector;
    - ymchwil;
    - gweithgareddau monitro a chydymffurfio, ac
    - ymateb i gwynion neu chwythu'r chwiban.

13. Lle bo angen, gallwn gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i gorff dyfarnu sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu ddarparu data i ni am ffioedd.

14. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn ni'n cynnal gweithgareddau adolygu ychwanegol er mwyn sicrhau bod cymwysterau'n cynrychioli gwerth am arian, er enghraifft, os ydyn ni'n cyfyngu ar fath penodol o gymhwyster, neu os mai dim ond un darparwr sydd gan gymhwyster.

Cynnal ymchwiliad

15. Pan fo pryder gennym ni, efallai y byddwn ni'n penderfynu cynnal ymchwiliad o'r ffioedd perthnasol a godir gan gorff dyfarnu. Byddai'r ymchwiliad yn ceisio penderfynu a yw ffi yn cynrychioli gwerth am arian ai peidio. Er mwyn gwneud hyn, byddem yn ystyried:

    (a) y ffioedd a godir am gymwysterau tebyg, a/neu wasanaethau neu gyfleusterau cysylltiedig (lle mae'r rhain yn bodoli), er mwyn gallu cymharu, tra'n nodi amgylchiadau'r cymhwyster penodol hwnnw;

    (b) natur y cymhwyster sy'n cael ei ddarparu, ac a yw'r costau a ysgwyddwyd gan y corff dyfarnu wrth ddarparu'r cymhwyster hwnnw, a/neu'r gwasanaeth neu gyfleuster cysylltiedig, yn rhesymol. Rydym ni'n disgwyl bod gan gyrff dyfarnu brosesau priodol er mwyn dyrannu costau a rhesymeg ynghylch y ffioedd a godir;

    (c) unrhyw draweffaith mae'r ffi yn ei chael ar brynwyr neu ar y system gymwysterau, tra'n nodi bod penderfyniadau prynwyr a'u gallu i dalu yn cael eu dylanwadu gan nifer o ffactorau heblaw am ffioedd; ac

(d) a yw'r ffi wedi codi'n sylweddol uwchben cyfradd chwyddiant ai peidio[4].

16. Wrth gynnal ymchwiliad, byddwn ni'n ceisio ymgysylltu â'r corff dyfarnu drwy gydol y broses. Fel rhan o'r ymchwiliad, rydym ni'n rhagweld y bydd angen i gyrff dyfarnu ddarparu gwybodaeth inni. Mae'r wybodaeth hon yn debygol o gynnwys data ariannol a rhesymeg y sefydliad dros y ffi maen nhw'n ei chodi. Caiff yr holl ddata perthnasol a ddarperir ei ystyried er mwyn penderfynu a yw'r ffi yn cynrychioli gwerth am arian ai peidio.

17. Ar ôl cwblhau ein hymchwiliad, byddwn ni'n penderfynu a yw'n briodol gosod Amod Capio Ffioedd. Mae'r meini prawf rydyn ni'n debygol o'u defnyddio wedi eu hamlinellu ym mharagraff 5 y polisi hwn. Os ydyn ni'n ystyried ei bod yn briodol gosod cap, yna byddwn ni'n penderfynu ar y terfyn ac mae'r meini prawf rheiny hefyd i'w gweld yn y polisi hwn.

18. Caiff y penderfyniadau hyn eu cyfathrebu wrth y corff dyfarnu drwy gyflwyno Hysbysiad o Fwriad (gweler paragraff 20 y polisi hwn).

Materion sy'n debygol o gael eu hystyried wrth benderfynu ar y terfyn a nodir mewn Amod Capio Ffioedd

19. Wrth benderfynu ar y terfyn a nodir mewn Amod Capio Ffioedd, byddwn ni'n ystyried materion fel y rhai canlynol:

    (a) y cydrannau gwerth am arian fel y nodir yn y polisi hwn;

    (b) buddiannau dysgwyr a thraweffeithiau posibl y darpar ffioedd ar eu gallu i gyrchu cymwysterau, a

    (c) gallu'r corff dyfarnu i adennill y costau rhesymol a ysgwyddwyd wrth ddarparu'r cymhwyster.

20. Byddwn ni hefyd yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd inni gan y corff dyfarnu sy'n ymwneud â'u ffioedd.

Cyfnod para tebygol Amod Capio Ffioedd

21. Wrth osod Amod Capio Ffioedd, byddwn ni'n cynnwys manylion ynglŷn â chyfnod para tebygol yr Amod hwnnw.

22. Wrth benderfynu ar gyfnod para tebygol Amod Capio Ffioedd byddwn ni'n ystyried y cyfnod y bydd y cymhwyster ar gael i ddysgwyr.

[4] Wrth benderfynu ar raddfa chwyddiant, byddwn ni'n ystyried amrywiaeth o fesurau gan gynnwys, ond nid yn unig Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

Monitro ac adolygu Amod Capio Ffioedd yn barhaus

23. Byddwn ni'n adolygu Amod Capio Ffioedd o dro i dro, a phan fyddwn ni'n gwneud hynny, byddwn ni'n ystyried materion fel y rhai canlynol:

    i. a yw'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio â'r Amod Capio Ffioedd; ac
    ii. unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n cyfiawnhau adolygiad o'r cap a osodwyd.

24. Os ydym ni'n adolygu Amod Capio Ffioedd ac yn dod i'r casgliad ei bod yn briodol ei ddiwygio neu ei ddileu, byddwn ni'n ysgrifennu at y corff dyfarnu i gadarnhau hyn.

25. Mae'n rhaid i gorff dyfarnu sydd wedi derbyn Amod Capio Ffioedd adrodd ar ei gydymffurfiaeth wrthym ni. Efallai y byddwn ni hefyd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan y corff dyfarnu, yn unol â'n Datganiad Polisi ar Gynnal Adolygiadau o Gymwysterau a'r System Gymwysterau, er mwyn monitro cydymffurfiaeth.

26. Os nad yw corff dyfarnu yn cydymffurfio ag Amod Capio Ffioedd, gallwn gymryd mathau eraill o gamau rheoleiddio, fel yr amlinellir yn ein polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith.

Y broses o osod Amod Capio Ffioedd

Cam 1 – Hysbysiad o fwriad

27. Cyn gosod cap ffioedd, byddwn ni'n hysbysu'r corff dyfarnu perthnasol yn ysgrifenedig o'n bwriad i wneud hynny. Mae'r 'Hysbysiad o Fwriad i Osod Amod Capio Ffioedd' yn cynnwys:

    i. yr Amod Capio Ffioedd rydyn ni'n cynnig ei osod;
    ii. eglurhad ynghylch pam rydyn ni'n cynnig gosod yr Amod Capio Ffioedd;
    iii. y dyddiad rydyn ni'n cynnig penderfynu ei osod ai peidio. (Bydd hwn yn gyfnod o o leiaf 28 diwrnod, gan ddechrau gyda dyddiad yr Hysbysiad); a
    iv. gwahoddiad i'r corff dyfarnu gynnig sylwadau inni ac erbyn pryd y dylid gwneud hynny.

Cam 2 – Cyflwyno sylwadau i ni cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud

28. Mae gan gorff dyfarnu sy'n derbyn Hysbysiad o Fwriad y ddau ddewis canlynol:

    i. cynnig sylwadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig inni ynglŷn â'r cynnig i osod yr Amod Capio Ffioedd o fewn 28 diwrnod. Byddwn ni'n rhoi sylw dyladwyi'r sylwadau a wneir ac yna yn penderfynu gosod yr Amod Capio Ffioedd ai peidio; neu

ii. gwneud dim, os felly, byddwn ni'n aros tan i gyfnod yr Hysbysiad o Fwriad (lleiafrif o 28 diwrnod) ddod i ben, ac yna'n gwneud penderfyniad terfynol am osod yr Amod Capio Ffioedd.

Cam 3 – Amod Capio Ffioedd

29. Os ydyn ni'n penderfynu gosod Amod Capio Ffioedd, byddwn ni'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r corff dyfarnu dan sylw yn gosod y cap ffioedd fydd yn nodi'r canlynol:

i. enw'r corff dyfarnu mae'r Amod Capio Ffioedd yn cael ei osod arno;
ii. y cymhwyster, gwasanaeth neu gyfleuster mae'r Amod Capio Ffioedd yn berthnasol iddo;
iii. ein rhesymeg dros osod yr Amod Capio Ffioedd;
iv. terfyn uwch sy'n fwyafswm y gall y corff dyfarnu ei godi am y cymhwyster, gwasanaeth neu gyfleusterperthnasol;
v. y dyddiad y daw yr Amod Capio Ffioedd i rym[5];
vi. hyd tebygol yr Amod Capio Ffioedd, gan gynnwys unrhyw ddyddiad(au) adolygu;
vii. canlyniadau diffyg cydymffurfio; ac
viii. yr hawl i wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad ac erbyn pryd mae'n rhaid cyflwyno hyn inni.

Adolygiad o Benderfyniad

30. Caiff corff dyfarnu sy'n derbyn Amod Capio Ffioedd wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad yn unol â'n Polisi Apeliadau Rheoleiddiol. Caiff yr adolygiad ei gynnal gan ein hadolygwr/adolygwyr annibynnol.

31. Gall yr adolygwr/adolygwyr amddiffyn y penderfyniad yn llawn neu amddiffyn y penderfyniad i gapio'r ffi ond amrywio'r terfyn uchaf a osodir. Gall yr adolygwr/adolygwyr hefyd droi'r penderfyniad ar ei ben. Pa bynnag ganlyniad sy'n digwydd, byddwn ni'n ysgrifennu at y corff dyfarnu i'w hysbysu o benderfyniad yr adolygwr/adolygwyr ac a oes angen gweithredu o ganlyniad i'r penderfyniad.

32. Yn ddibynnol ar ganlyniad adolygiad, byddwn ni fel arfer yn cyhoeddi Amodau Capio Ffioedd ar ein gwefan pan fo'n briodol ac yn amserol i wneud hynny.

[5] Mae Paragraff 9, Atodlen 3 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r dyddiad fod yn ddyddiad ar ôl y dyddiad olaf y caniateir gwneud cais am adolygiad.